Cyngor Cymuned Cerrig y Drudion

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 7fed o Ragfyr 2022

Presennol oedd Prys Ellis, John Jones, Llio Morris, Cyng Gwennol Ellis, Ffuon Williams fel cadeirydd a Carol Humphreys y clerc. Cafwyd ymddiheuriadau gan Einion Edwards, Menai Hughes, Maria Roberts, Guto Jones a Trystan Humphreys.

Datgan diddordeb neb.

Cofnodion blaenorol fe'u harwyddwyd fel rhai cywir.

Gohebiaeth

[1] Garry Jones cafwyd llythyr mewn ymateb i llythyr a anfonwyd iddo ynglŷn a materion bod ambell i gar yn parcio ar hanner palmant ac bod cwn yn crwydro ei hunain ir cae chwarae Cae LLwyd gan ddeiliaid y pentref ac iddynt fod yn ymwybodol o hyn ac efallai yn synid ei gynnwys yn ei pecyn croeso ar Air B and B.

[1.1] Dawns i Bawb yn gofyn am gyfrainad pasiwyd i roi £50.00.

[1.2] Helen Goddard llyfrgell Cymunedol - llythyr yn gofyn a fuasem yn ystyried rhoi cyfraniad tuag at gynnal y gwasanaethau llyfrgell yn Ngherrig y Drudion pasiwyd i gytuno i wneud gan ychwanegu y gost ar y Precept nesaf.

[1.3] 'Rural Kick start Project' ffurflen arolwg pasiwyd iw adael a gofyn a fusem yn dod atom i Cerrig i drafod yn mis Ionawr.

[1.4] Canolfannau Clyd = gellir cael grant i gynnal cannolfan glyd er mwyn sicrhau bod lle i unrhyw un gael dod a chael paned, yn ystod y tri mis ddechre flwyddyn pasiwyd i geisio am grant a gofyn am ganiatad a fuasai yn bosib ei gynnal yn y llyfrgell cymunedol ar ddydd Iau, clerc i wneud ymoliadau.

[1.5] Urdd Gobaith Cymru yn gofyn am gyfraniad Yn ranbarthol a Cenedlaethol pasiwyd i roi ir Eisteddfod Ranbarth Conwy £100.00.

[1.6] Ffit Conwy yn gofyn os yr ydym am roi cyfraniad tuag at y Chwaraeon yr Haf yn Ngherrig y Drudion pasiwyd i gytuno i roi £400 run fath ac arfer.

[1.7] Cyngor Bwrdeisdref Sirol Conwy anfoeb etholilad ym mis Mai £135.00 pasiwyd iw dalu.

[1.8] Menai Hughes pasiwyd i dalu cyflog y gofalwraig sef £500.00.

[1.9] Ambiwlans Awyr Cymru gofyn am gyfraniad pasiwyd ei adael tan y Cyfarfod nesaf yn mis Ionawr.

[2] Torch Sul y Cofio mae'r clerc wedi talu £20.00 am y dorch i Mrs Brenda Jones.

[2.1] Fynwent Newyd pasiwyd i ofyn am brisiau tori y fynwent ar gyfer y flwyddyn nesaf, gan nodi bod angen cynnal ai chadw yn daclus a ysgubor dail a chwynnu.

[2.2] Cadair Edward Morris, Perthillwydion mae Robin Gwyndaf yn awyddus ir gadair gael ei symud ir Llew Gwyn ond penderfynnwyd ei gadel yn yr Ystafell Plwyf am y tro tan ddechre flwyddyn.

[2.3] Y diffoddwr Tan awgrymwyd ein bod yn symud yr offer tuag at y drws allanol, y clerc I ofyn I Snowdonia Fire Service y tro nesaf y bydd yn ymweld.

Cadeirydd………………………………………………………………